

Datganiad Polisi Rhaglenni 2011

Cyhoeddwyd ar 02.02.2011

1. Rhagarweiniad

Ateb gofynion ein cynulleidfa a'n defnyddwyr yw pwrpas holl gynnwys S4C.

Mae 2011 yn flwyddyn bwysig yn hanes y Sianel. Mae'n gyfnod cyffrous wrth i ni ddatblygu ein gwasanaethau i ofynion y gymdeithas fodern a gwneud hynny mewn cyfnod economaidd anodd. Dyma fydd y flwyddyn lawn gyntaf i'r Sianel ddarledu yn ddigidol yn unig a blwyddyn lawn gyntaf S4C Clirlun sef ein gwasanaeth manylder uwch.

Dyletswydd statudol S4C yw darparu ystod eang o raglenni o safon uchel ac amrywiol gyda'r nifer helaeth o raglenni yn yr iaith Gymraeg.

Mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau fod cynnwys ein gwasanaethau yn ateb gofynion ein defnyddwyr ac ein bod yn sicrhau y gwerth gorau am arian.

2. Darlledwr Cyhoeddus

Mae S4C yn ddarlledwr cyhoeddus ac felly mae gan y Sianel nifer o swyddogaethau.

- Cynnig gwybodaeth eang i ddatblygu deallusrwydd o'r byd.
- Cynnig cynnwys apelgar sy'n annog a datblygu diddordeb a gwybodaeth o'r celfyddydau, gwyddoniaeth, hanes, crefydd ac amryw o destunau eraill.
- Adlewyrchu a chryfhau ein hunaniaeth ddiwylliannol trwy gynnwys gwreiddiol a dyfeisgar.
- Cynrychioli amrywiaeth gyda rhaglenni sy'n adlewyrchu bywydau a safbwyntiau amrywiol.
- Cysylltu â'n cynulleidfa gan addysgu a chynnig gwybodaeth, adlewyrchu bywyd a chymdeithas y Gymru gyfoes, adlonni ein gwylwyr a'n defnyddwyr.
- Cynnig cynnwys o safon uchel sy'n wreiddiol, dyfeisgar, heriol, atyniadol, ac sydd ar gael i gynulleidfa eang.

3. Gwasanaeth Rhaglenni 2011

Bydd y gwasanaeth yn 2011 yn dilyn blaenoriaethau'r Strategaeth Cynnwys gan ymrwymo i gynnig darpariaeth amrywiol o safon uchel sy'n gwneud y defnydd gorau o'n cyllid.

Mae gwaith ymchwil ansoddol a meintiol cyson gyda'r gwylwyr yn cyfrannu at y broses o gynllunio'r arlwy. Rydym am gynnal llwybr clir i'n gwylwyr gysylltu â ni. Bydd Gwifren Gwylwyr S4C ar gael i dderbyn sylwadau ac ymholiadau. Byddwn hefyd yn archwilio i bosibiliadau eraill o dderbyn adborth am ein cynnwys. Mae'n hanfodol ein bod yn ymateb i ofynion ein gwylwyr.

Mae'r hinsawdd economaidd yn gosod her ychwanegol i'r Sianel ac i'r sector gynhyrchu annibynnol. Mae cynlluniau a thrafodaethau eisoes ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni'n dyheadau er gwaethaf y caledi economaidd. Mewn partneriaeth greadigol gyda'n cynhyrchwyr byddwn yn gwireddu ein hawydd i weithio mewn ffyrdd dyfeisgar a chreadigol er mwyn cynnig y gwasanaethau gorau i'n defnyddwyr.

Rydym yn ymrwymo i sicrhau y bydd o leiaf 95% o'r oriau a gomisiynir yn uniongyrchol gan S4C yn 2011 yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio proses gomisiynu ddi-dor er mwyn annog creadigrwydd trwy gydol y flwyddyn yn ogystal â'r gallu i ymateb yn sydyn i bynciau fydd o ddiddordeb i'n gwylwyr. Pan fydd gofyn byddwn yn parhau â'n polisi tendro agored fel dull o sicrhau gweithredu cystadleuol.

Mae partneriaeth greadigol rhwng S4C a'r sector gynhyrchu annibynnol yn hanfodol.

Yn ogystal â rhaglenni a gomisiynir yn uniongyrchol gan S4C mae o leiaf 10 awr o raglenni'r wythnos yn cael eu darparu gan y BBC fel gofyniad statudol ac o fewn fframwaith y Cytundeb Partneriaeth Strategol. Mae'r cytundeb hwnnw wedi ei adnewyddu hyd at 2013.

4. Yr Amserlen

Yn 2011 bydd y gwasanaeth ar deledu yn parhau ar ffurf y patrwm darlledu a gyflwynwyd wrth i'r Sianel drosglwyddo i ddigidol yn 2010. Gwasanaeth cyflawn Gymraeg fydd ar gael o 7 y bore tan yr hwyr.

Y gwasanaeth i blant meithrin, **Cyw** fydd yn cael ei ddarlledu yn y bore. Bydd arlwy'r prynhawn yn gyfuniad o raglenni gwreiddiol, defnydd o archif, a chyfle arall i wyllo rhai o brif raglenni'r amserlen. Bydd ein darpariaeth i blant hŷn, **Stwnsh** yn cael ei ddarlledu ar ddiwedd y prynhawn. Yr oriau brig fydd yn cael y flaenoriaeth a dyna le fydd y gwariant mwyaf wrth i ni gynnig ystod eang o raglenni o safon uchel. Bydd yr oriau hwyr yn cynnwys rhai rhaglenni gwreiddiol yn ogystal â chynnig ffenest arall ar gyfer gwylwyr nad sydd ar gael i wyllo rhai o'n prif raglenni yn ystod yr oriau brig. Bydd **Cyw** a **Stwnsh** hefyd yn cael eu darlledu ar y penwythnos. Mae yna le amlwg hefyd ar y penwythnosau i'n rhaglenni digwyddiadau a chwaraeon.

5. Drama

Mae cymdeithas fodern a thriniaethau o destunau cyfoes yn amlwg yn ein harlwy drama yn 2011 wrth i bedair cyfres ddrama newydd fwrw'r sgrin. Mae cryn edrych ymlaen at y gyfres newydd gan yr awdur Siwan Jones, **Alys**. Drama gyfoes sy'n edrych ar fyd mam ifanc sengl sy'n symud i dref wledig a'r effaith mae hynny'n cael ar gymdeithas leol y dre fach yn ne orllewin Cymru.

Testunau cyfoes fydd yn y gyfres **Porthpenwaig** hefyd sydd wedi ei leoli ym Mhenllyn. Mae'r gyfres yn edrych ar densiynau cymdeithasol yn sgil y dynfa economaidd sy'n mynd a phobl ifanc bant o'r ardaloedd gwledig a'r rhai sy'n dychwelyd neu aros yn ôl.

Bydd y gyfres **Gwaith Cartref** yn dilyn hynt a helynt bywydau athrawon ysgol uwchradd yn ystod oriau gwaith a thu allan i gatiâu'r ysgol.

Stori llawn antur ac emosiwn sy'n datblygu yn sgil marwolaeth un gŵr a'r amryw ferched yn ei fywyd yw'r gyfres **Sombreros**.

Mae yna ddwy gyfres ffuglen newydd ar gyfer ieuenctid yn cyrraedd yn 2011 a bydd y ddwy gyfres yn cael lle o fewn y brif amserlen. Bydd lle amlwg o fewn yr oriau brig i'n hopera sebon **Pobol y Cwm** ac i'r gyfres boblogaidd **Rownd a Rownd**. Mae'r gyfres **Teulu** yn parhau am gyfnod yn gynnar yn y flwyddyn. Hefyd yn gynnar yn y flwyddyn byddwn yn dangos ail ffilm **Ar y Tracs: Y Trên i'r Gêm**. Ffilm ysgafn sydd wedi ei seilio ar helyntion diwrnod gêm rygbi rhyngwladol.

6. Digwyddiadau a Chwaraeon

S4C yw cartref digwyddiadau o ddiddordeb Cymreig. Byddwn yn cryfhau ein gwasanaeth yn y meysydd yma yn 2011. Mae'r Eisteddfodau, Sioeau Amaethyddol, perfformiadau cerddorol a digwyddiadau ym myd y campau yn gyfuniad o'r cenedlaethol a'r lleol ac yn ddolen amlwg rhwng S4C a'n cynulleidfa.

Yn ystod cyfnodau **Yr Eisteddfod Genedlaethol**, **Y Sioe Frenhinol**, **Eisteddfod Yr Urdd** ac **Eisteddfod Llangollen**, mi fydd ein darpariaeth o'r digwyddiadau yn llywio'r brif amserlen wrth i ni gynnig yr holl fwrlwm i'n gwylwyr. Byddwn hefyd am gynnig gwasanaethau estynedig o'r digwyddiadau ar y we.

Byddwn yn cynnig darpariaeth lawn o'r **Ŵyl Cerdd Dant** ac yn cynnal ac yn darlledu **Cân i Gymru a Chôr Cymru**. Bydd ein darpariaeth o ddigwyddiadau lleol yn parhau yn ogystal â'n darllediadau byw o **Eisteddfod Mudiad y Ffermwyr Ifanc** a gŵyl chwaraeon a cherddoriaeth gyfoes **Wakestock**.

Un o brif ddigwyddiadau'r Deyrnas Unedig yn 2011 fydd y Briodas Frenhinol ac fe fydd S4C yn darlledu'r achlysur yn fyw.

Mae ein darpariaeth chwaraeon yn hynod bwysig i'n gwylwyr yn enwedig y rhai di-Gymraeg a'n gwylwyr achlysurol. Yn 2011 byddwn yn cynnig y gorau o'r campau mwyaf poblogaidd sef rygbi, pêl-droed a chriced. Ein blaenoriaeth fydd dangos gemau byw fydd yn ecsgliwsif ar deledu rhad ac am ddim.

Bydd lle amlwg o fewn yr oriau brig i rygbi o Gynghrair Magners ar nos Sadwrn ac elfennau o'n cytundeb hawliau domestig. Byddwn hefyd am wneud y gorau o'n hawliau o gystadleuaeth Cwpan LV a Chwpan Prydain ac Iwerddon. Mae ein huchafbwyntiau o gystadleuaeth Cwpan Heineken hefyd yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i ddilynwyr rygbi. Mae cyfres newydd **Clwb Rygbi Shane** yn dilyn hynt a helynt Shane Williams a Derwyn Jones wrth iddynt geisio adfywio tîm ieuenctid clwb rygbi Yr Aman.

Bydd gemau byw pêl-droed o brif gystadlaethau Cymru yn hawlio'r amserlen ar brynawn Sadwrn yn **Sgorio**. Bydd y rhaglenni hefyd yn cynnig gwasanaeth canlyniadau llawn o feysydd pêl-droed Cymru a thu hwnt. Byddwn am wneud y gorau o'n huchafbwyntiau o gemau cartref tîm cenedlaethol Cymru. Rydym wedi llwyddo i sicrhau'r hawliau i gystadleuaeth newydd Cwpan y Cenedloedd Carling fydd yn cynnwys darllediadau byw o gemau Cymru yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd ein darpariaeth criced byw yn parhau gyda darllediadau ecsgliwsif o 4 o gemau Morgannwg yng Nghystadleuaeth yr Ugain Pelawd.

Mae dangos amrywiaeth o gampau yn hanfodol i'r Sianel ac felly yn ogystal â'r prif gampau byddwn yn cynnig arlwy o **Ralïo, Rasmus** gan gynnwys rhaglenni byw o **Rasmus Tregaron, Ras yr Wyddfa, Marathon Eryri** a **Hanner Marathon Caerdydd**.

Wrth i'n hathletwyr barhau i baratoi ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 byddwn i gyda nhw ar hyd y daith yn y gyfres **Y Ras i Lundain 2012**.

Bydd Lowri Morgan ar ras arall wrth iddi dderbyn y sialens chwaraeon eithafol o gystadlu ym marathon eithafol yr Ultra 6633. Dyma farathon mwyaf oer, gwyntog a chaled y byd wrth i'r rhedwyr gystadlu dros sawl diwrnod yng nghylch yr Arctig.

7. Adloniant

Bydd yna ddigon i adlonni'n cynulleidfa yn 2011. Cymysgedd o'r hen ffefrynnau a chyfresi newydd fydd o fewn y genre adloniant yn ystod y flwyddyn.

Bydd cyfresi poblogaidd **Noson Lawen, Only Men Aloud, Tudur Owen, Jonathan** a **Fferm Ffactor** yn dychwelyd. Mae yna drafodaethau ar waith i ddatblygu syniad am gyfresi adloniant newydd sbon ar gyfer nos Sadwrn. Byddwn hefyd yn edrych yn benodol ar y posibilïadau i ddatblygu comedi.

Er ei fod yn wyneb cyfarwydd i'n gwylwyr bydd Rhydian Roberts yn amlwg yn yr arlwy wrth iddo gael ei gyfresi gyntaf. Adeg Nadolig byddwn yn dilyn hynt a helynt trigolion lleol wrth iddynt greu a pherfformio pantomeim. Bydd yna sioe adloniant newydd wedi ei hanelu at yr ifanc.

8. Newyddion a Materion Cyfoes

Fel darlledwr cyhoeddus fe fydd gwasanaeth newyddion S4C yn cydymffurfio â thargedau Ofcom gydag o leiaf 200 awr o newyddion dros yr holl oriau Cymraeg gydag o leiaf 150 awr yn yr oriau brig.

Er mwyn sicrhau plwraliaeth a chael safbwyntiau gwahanol o fewn ein gwasanaeth byddwn yn parhau i dderbyn ein rhaglenni materion cyfoes a ffeithiol newyddiadurol gan fwy nag un cyflenwr. Bydd ITV yn cyfleu cyfres **Y Byd ar Bedwar** a'r gyfres newyddiadurol i bobl ifanc **Hacio**. Bydd BBC Cymru yn cyfleu cyfresi **Taro 9, Pawb a'i Farn** ac **CF99**.

Mae yna ddau achlysur o bwys yn y byd gwleidyddol Cymreig yn digwydd yn 2011 sef y Refferendwm ac Etholiad y Cynulliad. Bydd y ddau yn cael y sylw eithaf o fewn yr amserlen.

Gan danlinellu ymhellach ein plwraliaeth a sicrhau hygrededd ac amrywiaeth o fewn ein rhaglenni byddwn yn derbyn ein rhaglenni etholiadol oddi wrth BBC Cymru ac ITV. Byddwn hefyd yn parhau gyda'n darllediadau o'r Cynulliad.

9. Ffeithiol

Bydd ein darpariaeth o raglenni ffeithiol yn mynd i galon cymdeithasau Cymru a thu hwnt gan gynnig amrywiaeth o destunau a safbwyntiau. Yn y gyfres **Iolo ac Indiaid America** bydd y cyflwynydd Iolo Williams yn olrhain hanes a dyfodol Indiaid Brodorol America. Mae cyfres **Yr Ynys** yn edrych ar fywyd a hanes rhai o ynysoedd mwyaf diddorol y byd. Bydd golygfeydd a thirlun arbennig Sir Benfro yn cael eu dathlu yn y gyfres **Llwybr yr Arfordir** a bydd Dr John Davies yn ein tywys i **100 Lle** mewn cyfres sydd wedi ei seilio ar ei lyfr o'r un teitl.

Yn dilyn llwyddiant cyfres Y Porthmon yn 2010 bydd yna gynhyrchiad yn edrych ar daith enwog arall sef yr **Hen Lôn Bost**.

Mae hanes yn cael lle amlwg yn ein darpariaeth ffeithiol trwy'r cyfresi **Byw yn ôl y Llyfr** a **Byw yn ôl y Papur Newydd**. Hefyd fe fydd Ffion Hague yn edrych ar fywydau 6 merch sydd wedi bod yn amlwg yn hanes Cymru. Rydym hefyd wedi comisiynu rhaglen sy'n dilyn y broses o ail-greu delwedd wyneb **Owain Glyndwr**. Hanes ac achau pobl leol fydd cynnwys y gyfres newydd **Perthyn**. Bydd Steffan Rhodri yn mentro ymhell o adre wrth iddo ddod o hyd i allforion enwocaf Cymru yn **O Gymru Fach**. Casgliad o storiâu emosynol ac amrywiol fydd yn y gyfres **O'r Galon**.

Bydd cyfres arall o'r rhaglenni crefyddol ysbrydol **Y Daith** yn ogystal â chyfres unigryw a gyflwynir gan Archegob Cymru.

Mae llenyddiaeth Cymru yn cael lle amlwg gyda chyfres arall o **Gwlad Beirdd** wrth i feirdd cyfoes edrych ar waith a hanes beirdd amlycaf Cymru. Byddwn yn dathlu bywyd Caradog Pritchard mewn drama ddogfen **Afal Drwg Adda**. Mi fydd yna ddrama dogfen ar fywyd yr actor Richard Burton hefyd yn ychwanegiad gwerthfawr i'r arlwy.

Bydd cyfresi poblogaidd **Byw yn yr Ardd, Dudley a Bro** yn dychwelyd ac fe fydd cyfresi dyddiol ac amrywiol **Wedi 3** ac **Wedi 7** yn parhau i ddod a straeon o bob rhan o Gymru yn ystod yr wythnos.

Mae rhaglenni gwledig yn parhau'n rhan allweddol o'r amserlen wrth i gyfresi **Cefn Gwlad** a **Ffermio** dychwelyd.

Heb os, cynilo a sicrhau'r gwerth gorau am arian fydd ar flaen meddyliau pobl yn 2011. Mae'n bwysig felly fod yna le amlwg i raglenni sy'n ymwneud â hyn. Mae yna drafodaethau ar waith i sicrhau cynnwys o'r math yma.

10. Diwylliant

Mewn cyfres newydd o **Pethe** fydd yna drin a thrafod y celfyddydau a thraddodiadau cynhenid Cymreig. Bydd y gyfres yn cael ei darlledu o fewn yr oriau brig tra bydd y cyfresi atodol **Dweud Pethe** a **Pethe Hwyrach** yn cael eu darlledu yn yr oriau hwyr.

Yn **Dechrau Canu Dechrau Canmol** byddwn yn cyflwyno canu cynulleidfaol a pherfformiadau o safon uchel.

Trwy gyfrwng gwyliau cerddorol, rhifynnau arbennig o **Bandit**, a chyfresi **Nodyn** a **Gofod**, bydd sylw i gerddoriaeth gyfoes a'r sin roc Cymreig.

Bydd traddodiadau tafodieithol y wlad dan sylw yn y gyfres newydd **Iaith Ni**.

11. Plant

Yn dilyn llwyddiant pellach gwasanaeth **Cyw** i'r plant ieuengaf byddwn yn parhau a'n dyhead i ddatblygu ymhellach ein darpariaeth i blant o bob oed. Yn ogystal â'n darpariaeth i blant o 7 oed sef **Stwnsh**, byddwn yn cyflwyno cyfresi newydd i bobl ifanc dros 14 oed. Bydd y rhaglenni yma yn cael eu lleoli o fewn y brif amserlen.

Bydd gwasanaeth **Cyw** yn cynnwys comisiynau newydd gwreiddiol yn ogystal â chyd-gynyrchiadau ac animeiddio a bydd **Cyw** a **Stwnsh** yn cael eu darlledu ar y penwythnos yn ogystal â diwrnodau'r wythnos.

12. Cyffredinol

Yn 2011 bydd S4C ar gael ar DTT a chebl yng Nghymru, ac ar fand llydan a lloeren yn y Deyrnas Unedig. Bydd S4C yn adolygu yn gyson ac yn adnabod cyfleoedd er mwyn cynnig ein gwasanaethau ar lwyfannau eraill yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Bydd S4C Clic yn parhau i fod yn wasanaeth fwy fwy gwerthfawr i'n cynulleidfa drwy alluogi gwyllo ein rhaglenni ar alw ac yn gydamserol ar lein. Gan na fydd gwasanaeth bellach ar S4C 2, byddwn yn gwneud y defnydd gorau o ffrydio byw ar y we yn ystod ein darpariaeth o brif ddigwyddiadau Cymru.

Byddwn yn dal i gynnig cynnwys mewn manylder uwch ar S4C Clirlun.

Cred S4C yn yr angen i hyrwyddo amrywiaeth, cyfleoedd cyfartal a thriniaeth deg. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ystod llawn amrywiaeth o fewn ein cynnwys a'n gwasanaethau sy'n cynnwys is-deitlo ac arwyddo. Byddwn yn parhau i ail-ddarlledu nifer o'n rhaglenni poblogaidd gydag is-deitlau agored.

Bydd ymrwymiad S4C i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn parhau ar ffurf yr adnodd ar-lein sefydledig <http://www.s4c.co.uk/dysgwyr>.

Bydd ein gwasanaethau yn cydymffurfio gyda thargedau Ofcom, targedau Awdurdod S4C a'r rhai a nodir yn y Ddeddf Gyfathrebiadau. Byddwn yn darlledu o leiaf 90% o raglenni gwreiddiol yn ystod yr oriau brig ac 80% dros yr holl oriau Cymraeg ar S4C. Byddwn yn edrych i daro'r cydbwysedd rhwng sicrhau effaith a chyrhaeddiad rhaglenni unigol trwy eu hail-ddarlledu, ond byddwn yn ceisio sicrhau nad yw hyn ar draul mwynhad y gynulleidfa sy'n gwyllo'n gyson. Mewn wythnos arferol bydd llai na 15% o'r rhaglenni yn yr oriau brig yn ailddarllediadau.

Trwy wrando'n gyson ar ein cynulleidfa a thrwy bartneriaeth greadigol â'r sector gynhyrchu annibynnol rydym yn sicr y gallwn gyflawni ein dyheadau a'n dyletswyddau a chyfleu gwasanaeth gwerthfawr a chost effeithiol i'n defnyddwyr.

Geraint Rowlands